Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd
# Heol Glan-Y-Nant
# Yr Eglwys Newydd
# Caerdydd
# CF14 1AP

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/08/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd ym mhentref Yr Eglwys Newydd yng ngogledd Caerdydd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r ardal gyfagos.

Mae niferoedd yr ysgol wedi codi'n gyson dros y tair blynedd diwethaf. Bellach, mae 474 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys 64 o blant oed meithrin sy'n mynychu'n rhan-amser. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion yn amser llawn i'r dosbarth derbyn ar ddechrau'r tymor y maent yn cael eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn 14 dosbarth un oedran.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae oddeutu 4% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim yn yr ysgol, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Daw 53% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o'u cael yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Mae tua 11% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cynnwys ychydig iawn o ddisgybl gyda datganiad addysgol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion o dan ofalaeth yr awdurdod.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Tachwedd 2009. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers mis Ebrill 2005.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd yn 2014-2015 yw £3,070. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Caerdydd yw £6,523 a'r lleiafswm yw £2,908. Mae Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd yn safle 87 o'r 96 ysgol gynradd yng Nghaerdydd o safbwynt y gyllideb fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Bod llawer o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn cynhyrchu gwaith ysgrifennu ymestynnol
- Bod safonau lles y disgyblion o ansawdd uchel iawn ac yn gryfder amlwg yn yr ysgol
- Bod ymddygiad pob plentyn ar draws yr ysgol yn eithriadol
- Bod presenoldeb disgyblion ymhell uwchlaw'r disgwyl
- Bod llais y disgybl yn gryfder ac yn rhan ganolog i waith yr ysgol
- Bod y cyngor ysgol wedi chwarae rhan flaenllaw wrth ymgynghori â'r adeiladwyr ar gynlluniau'r ysgol
- Bod safon yr addysgu yn gadarn dda

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Bod y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol
- Bod gan arweinwyr yr ysgol ddisgwyliadau uchel
- Bod ymdeimlad cryf o gydweithio fel tîm ymysg staff yr ysgol
- Bod rhaglen addas ar gyfer monitro ac arfarnu ystod eang o agweddau ar fywyd yr ysgol
- Bod gan arweinwyr yr ysgol adnabyddiaeth dda o gryfderau a'r meysydd i'w gwella
- Bod gan yr ysgol staff â chymwysterau o safon uchel i addysgu pob agwedd ar y cwricwlwm yn effeithiol iawn

## Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd cyson ac amrywiol i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Cryfhau rôl y llywodraethwyr i herio'r ysgol ynghylch ei pherfformiad

A3 Sicrhau bod adroddiadau monitro'n arfarnol, yn ffocysu'n glir ar agweddau penodol a bod arweinwyr yr ysgol yn gweithredu'n gadarn ar ganfyddiadau monitro

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn yn unol â'u targedau. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion ieuengaf yn ymgartrefu'n gyflym ac yn datblygu'n effeithiol fel dysgwyr annibynnol. Mae safonau mwyafrif y disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn gadarn.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud ac yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith gan ddefnyddio cystrawen addas a geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Ar frig y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn ystyrlon gyda dealltwriaeth gadarn o'r testun. Mae disgyblion mwy abl, yn ddarllenwyr hyderus, a thrwy newid goslef llais, maent yn dal sylw'r gwrandawyr yn dda.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir yn y ddwy iaith, gan ymuno â thrafodaethau dosbarth yn frwdfrydig. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn trafod agweddau o'u gwaith yn ddeallus, gydag ychydig o ddisgyblion mwy abl yn trafod gydag aeddfedrwydd a chan ddefnyddio geirfa ymestynnol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn hyderus yn y ddwy iaith gan ddangos ymwybyddiaeth dda o gynulleidfa. Mae disgyblion mwy abl yn dangos aeddfedrwydd wrth drafod ac ymateb i arddull gwahanol awduron. Mae bron pob disgybl yn medru cywain gwybodaeth berthnasol o wahanol destunau, gan gynnwys defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn addas gan ysgrifennu'n synhwyrol ac yn annibynnol. Mae llawer yn medru ysgrifennu adroddiadau trefnus yn sgil dwyn i gof eu hymweliad ag Amgueddfa Werin Cymru. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio ffurf gryno'r ferf yn gyson ac yn atalnodi eu gwaith yn briodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau dwyieithrwydd ac maent yn gwbl rugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd y cyfnod. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n ddeallus mewn amrywiaeth o ffurfiau yn y ddwy iaith gan atalnodi a sillafu'n gyson gywir. Ar frig yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifennu ymestynnol. Enghraifft o hyn yw'r addasiadau o chwedlau Aesop. Mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu darnau ffeithiol yn gynnil iawn gan ddefnyddio ystod o eirfa gyfoethog, er enghraifft wrth ysgrifennu araith bersonol mewn arddull Martin Luther King. Yn gyffredinol, mae cyflwyniad gwaith y disgyblion ar draws yr ysgol yn daclus.

Mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gadarn iawn.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau adio, tynnu, rhannu a lluosi syml yn briodol

wrth ddatrys problemau ac ymateb i heriau rhifiadol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gallu dod o hyd i ffracsiwn o siâp a rhif dau ddigid yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu. Maent yn dadansoddi a dehongli data yn hyderus, er enghraifft wrth gasglu gwybodaeth a llunio graff am drychfilod oedd yn peri gofid iddynt.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion mewn gwersi a'u llyfrau yn dda. Mae llawer yn defnyddio strategaethau priodol i ddod o hyd i berimedr siapiau 2D, gyda'r disgyblion mwy abl yn cyfrifo arwynebedd siapiau afreolaidd yn hyderus. Yn eu gwaith thema, mae'r rhan fwyaf yn darllen graddfa ar fap yn effeithiol a'i defnyddio i lunio a mesur hyd teithiau cerdded yn ardal Eryri. Mae rhan fwyaf y ddisgyblion yn defnyddio a chymhwyso'r medrau rhifedd maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg yn effeithiol i safon briodol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r safonau a welwyd yn llyfrau'r disgyblion ac ar lawr y dosbarth yng nghyfnod allweddol 2, yn well nag y mae data perfformiad yr ysgol yn ei awgrymu.

Yn y Cyfnod Sylfaen dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig wedi bod yn gyson yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg mewn llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg, tra mae perfformiad yr ysgol mewn datblygiad mathemategol wedi bod yn y 50% uwch am ddwy o'r tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch, dros y tair blynedd ddiwethaf, wedi amrywio rhwng yr 50% uwch a'r 25% isaf mewn datblygiad mathemategol a rhwng y 50% uwch a'r 50% is mewn llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol dros y pedair blynedd diwethaf, yn gyffredinol, wedi gosod yr ysgol yn y 50% is ym mhob pwnc craidd o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch mewn Cymraeg a Saesneg wedi bod yn y 50% uwch am dair o'r pedair blynedd diwethaf tra mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn y 50% is dros y ddwy flynedd diwethaf.

Nid oes patrwm clir o wahaniaeth ym mherfformiad bechgyn o gymharu â merched ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros gyfnod o bedair blynedd, mae merched yn perfformio'n well na'r bechgyn ar y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg a Saesneg. Nid oes patrwm o wahaniaeth arwyddocaol ar y lefelau uwch.

Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn isel iawn, felly nid yw cymariaethau o'u perfformiad yn erbyn perfformiad disgyblion eraill yn ddibynadwy.

**Lles: Da**

Mae safonau lles yr ysgol o ansawdd uchel iawn ac yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor. Mae gweithdrefnau megis y 'Bocs Becso' yn galluogi disgyblion i rannu ac i drafod unrhyw ofidiau mewn ffordd gynhwysfawr. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda iawn o ddiogelwch ar y we.

Mae'r disgyblion bron i gyd yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed i gadw'n iach. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd gweithgareddau corfforol sy'n hybu corff iach, er enghraifft wrth fynychu gweithgareddau hwylio, chwaraeon a chyrsiau preswyl.

Mae ymddygiad pob plentyn ar draws yr ysgol yn eithriadol. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch ac aeddfedrwydd tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae'r disgyblion bron i gyd yn ddysgwyr brwdfrydig ac, yn gyffredinol, yn ymwybodol o'r hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi datblygu'n llawn, yn enwedig mewn agweddau o rifedd.

Mae presenoldeb disgyblion ymhell uwchlaw'r disgwyl. Dros gyfnod o bedair blynedd, mae canran presenoldeb yr ysgol wedi ei osod yn gyson yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae prydlondeb disgyblion yn dda iawn.

Mae llais y disgybl yn gryfder ac yn rhan ganolog o waith yr ysgol. Mae'r pwyllgor eco, y cyngor ysgol, ac arweinwyr digidol yn chwarae rhan effeithiol iawn o fewn cymuned yr ysgol ac mae eu brwdfrydedd, a'u hymroddiad yn amlwg. Mae'r cyngor ysgol wedi chwarae rhan flaenllaw wrth ymgynghori â'r adeiladwyr ar gynlluniau'r ysgol newydd, cefnogi ystod eang o elusennau a thrwy fonitro bocsys bwyd iachus y disgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith effeithiol sy'n ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Maent yn cynnwys tasgau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae ystod o brofiadau cyffrous, er enghraifft y labordy ymchwil, yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau meddwl y disgyblion a'u hybu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Mae themâu trawsgwricwlaidd cyfnod allweddol 2 yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn dda. Maent yn darparu cyfleoedd defnyddiol i gymhwyso medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. Esiampl dda o hyn yw'r her entrepreneuriaeth blynyddol "A Dragons Den" sy'n datblygu medrau busnes y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi ei ymgorffori'n addas yng nghynlluniau'r ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a TGCh yn nodwedd dda iawn o waith yr ysgol sy'n arwain at safonau cyfathrebu da yn y ddwy iaith.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu am Gymru a'r iaith Gymraeg yn gryfder yn yr ysgol. Mae ymwelwyr ac ymweliadau niferus yn cyfoethogi'r dimensiwn Cymreig yn llwyddiannus. Trwy astudio bywyd a gwaith Cymry enwog fel O.M. Edwards a T. Llew Jones, mae dealltwriaeth y disgyblion o dreftadaeth a diwylliant Cymru yn datblygu'n dda iawn.

Caiff agweddau o ddinasyddiaeth fyd eang eu hyrwyddo'n gadarn drwy gysylltiadau gydag ysgol ym Mangladesh. Mae cysylltiadau â mudiadau eraill megis UNICEF yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o hawliau'r plentyn yn fedrus. Mae'r cyngor eco yn cyfrannu'n effeithiol tuag at leihau gwastraff, er enghraifft trwy bwyso cyfradd ailgylchu papur pob dosbarth. O ganlyniad, mae dealltwriaeth rhan fwyaf y ddisgyblion am bwysigrwydd gofalu am y byd ehangach yn gadarn.

**Addysgu: Da**

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio gwersi’n ofalus sy’n ysgogi diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion yn llwyddiannus iawn. Maent yn defnyddio ystod eang o adnoddau addysgu cyfoethog i gefnogi’r dysgu. Mewn llawer o’r gwersi lle mae’r addysgu o safon uchel iawn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel. Maent yn holi’n dreiddgar er mwyn herio ac ymestyn dealltwriaeth bron pob disgybl. Yn yr ychydig iawn o wersi lle mae’r addysgu’n llai effeithiol, mae cyflwyniadau’n rhy hir ac nid yw lefel yr her bob amser yn briodol. Ceir perthynas waith effeithiol iawn rhwng oedolion a disgyblion, sy’n meithrin awyrgylch dysgu llwyddiannus. Defnyddir y cynorthwywyr er mwyn cefnogi unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion yn fedrus.

Ar draws yr ysgol, mae’r athrawon yn cyflwyno amcanion dysgu yn glir. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i lwyddo. Yn ystod y gwersi, mae athrawon yn rhoi adborth llafar cadarn i’r disgyblion a chaiff gwaith ysgrifenedig ei farcio’n rheolaidd. Mae sylwadau athrawon yn rhoi gwybod i’r disgyblion yn glir beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu hymdrechion cyntaf.

Mae gan yr ysgol systemau cynhwysfawr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Yn gyffredinol, mae’r ysgol yn defnyddio deilliannau profion safonol ac ystod o dasgau asesu priodol eraill i asesu gwaith y disgyblion yn effeithiol. Maent yn defnyddio’r wybodaeth i gynllunio gweithgareddau addas sy’n bodloni anghenion unigolion a grwpiau o ddysgwyr yn effeithiol.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn gynhwysfawr ac yn cynnwys sylwadau pwrpasol ar gynnydd eu plentyn ynghyd â thargedau er mwyn gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar sy’n sicrhau bod disgyblion yn teimlo’n ddiogel. Mae’n hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus iawn ac mae polisïau cadarn yn eu lle. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd amrywiol a chyfoethog i hybu iechyd a ffitrwydd y disgyblion y tu mewn a thu allan i oriau’r ysgol. Mae’r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol yn dda ac yn gryfder amlwg o fewn yr ysgol . Mae naws arbennig yn cael ei greu o fewn gwasanaethau’r ysgol. Gwahoddir ymwelwyr yn gyson i arwain yr addoli ac mae cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion fyfyrio ar bynciau cyfoes, er enghraifft wrth drafod ffoaduriaid o Syria yn mewnfudo i Gymru.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n llwyddiannus ag asiantaethau arbenigol sy’n cefnogi lles disgyblion yn dda, fel yr heddlu, deintydd, seicolegwyr a’r gwasanaethau cymdeithasol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r arweinwyr yn adnabod anghenion penodol disgyblion yn gynnar, ac yn darparu cefnogaeth gadarn sydd wedi cyfrannu at wella safonau cyflawniad y disgyblion. Mae cynlluniau addysg unigol disgyblion yn cynnwys targedau clir sy’n cael eu trafod yn rheolaidd gyda’r rhieni. O dan arweiniad cadarn yr arweinwyr anghenion dysgu ychwanegol, mae’r cynlluniau’n cael eu monitro’n gyson.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Melin Gruffydd yn gymuned hapus, ofalgar a chyfeillgar. Mae yma ethos cynhwysol yn seiliedig ar weithredu polisïau a gweithdrefnau sy'n parchu hawliau unigolyn o fewn yr ysgol. Caiff y disgyblion eu meithrin i fod yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd helpu ei gilydd a helpu eraill llai ffodus na hwy. Drwy hyn maent yn datblygu ymagwedd aeddfed a chyfrifol iawn sy'n eu paratoi ar gyfer camau nesaf mewn bywyd.

Mae gan yr ysgol gyfleusterau dysgu o safon uchel iawn sy'n ymateb i anghenion y cwricwlwm eang. Mae'r ddarpariaeth hon wedi datblygu'n amlwg dros y blynyddoedd diwethaf. Mae arddangosfeydd amrywiol ac atyniadol iawn o waith a llwyddiannau disgyblion ar draws y dosbarthiadau a choridorau'r ysgol sy'n manteisio ar y dechnoleg ddiweddaraf. Mae'r cyfan yn cyfleu awyrgylch ysgogol a chadarnhaol. Mae'r ardaloedd a'r meysydd chwarae deniadol iawn uwchlaw'r disgwyliedig yn adnodd defnyddiol iawn sy'n ychwanegu'n llwyddiannus at brofiadau'r disgyblion. Mae holl adeilad a thir yr ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol. Mae'n llwyddo i gydweithio gyda disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni i greu ysgol lwyddiannus. Mae ei ddisgwyliadau'n uchel, a thrwy gyfraniad yr uwch dîm rheoli ac arweinwyr uned, mae'n sicrhau bod arweinyddiaeth yn datblygu'n effeithiol ar wahanol lefelau. Mae gan bob aelod o'r uwch dîm rheoli agweddau penodol i'w harwain er mwyn datblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu lwyddiannus. Mae strwythur rheoli clir o fewn yr ysgol ac mae cyfrifoldebau'r staff wedi eu diffinio'n fanwl. Mae ymdeimlad cryf o waith tîm ymysg yr holl staff.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn gyda dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac o flaenoriaethau'r ysgol. Mae newidiadau diweddar yn aelodaeth y corff yn golygu mai datblygu y mae eu dealltwriaeth o safonau a pherfformiad yr ysgol. Mae'r aelodau'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac yn derbyn cyflwyniadau ar agweddau o'r cwricwlwm neu ar waith yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at eu gwybodaeth am safonau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw eu rôl o herio'r ysgol ynghylch ei pherfformiad o gymharu ag ysgolion tebyg wedi datblygu'n llawn.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw dyledus i flaenoriaethau cenedlaethol fel datblygu'r Cyfnod Sylfaen, asesu ar gyfer dysgu a gweithredu'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd. Mae aelodau o'r staff yn rhwydweithio'n gyson gydag ysgolion eraill lleol er mwyn datblygu strategaethau newydd i godi safon ysgrifennu disgyblion. Mae effaith hyn i'w gweld ar ddeilliannau llythrennedd y disgyblion.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu rhaglen addas ar gyfer monitro ac arfarnu ystod eang o agweddau ar fywyd yr ysgol dros gyfnod.  Mae'r amserlen hunanarfarnu yn un manwl sy'n arfarnu holl waith yr ysgol yn dda gan ystyried barn arweinwyr, staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn llawn.  Mae hinsawdd agored yn bodoli yn yr ysgol sy'n sicrhau bod staff yn cael cyfle i arsylwi cydweithwyr yn addysgu a bod arfer dda yn cael ei rhannu'n effeithiol.  Mae'r broses fonitro'n cynnwys dadansoddiad o ddata, arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau disgyblion a gwerthusiad o gynllunio'r athrawon.  O ganlyniad, mae adroddiadau cyson yn cael eu hysgrifennu gan arweinwyr ar bob lefel o fewn yr ysgol.  Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau bob amser yn ddigon arfarnol ac nid ydynt yn nodi'n ddigon clir yr agweddau sydd angen eu datblygu.  Nid yw arweinwyr bob amser yn gweithredu'n ddigon manwl ar y canfyddiadau monitro.

Mae dogfen hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac arfarnol sy'n dangos bod gan arweinwyr yr ysgol adnabyddiaeth gadarn o gryfderau a'r meysydd i'w gwella.  Mae'r ysgol yn dadansoddi data yn drwyadl ac mae dealltwriaeth staff o ba mor dda mae grwpiau amrywiol o ddisgyblion yn perfformio yn gynhwysfawr.  Mae'r wybodaeth hon yn gymorth wrth greu cynllun gwella ysgol buddiol.

Mae cysylltiad agos rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun gwella ysgol sy'n nodi'n glir y blaenoriaethau ar gyfer gwelliant.  Mae'n cynnwys llinellau amser priodol ac yn dosrannu cyfrifoldebau i weithredu yn addas.  Mae'r cynllun yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan arweinwyr yr ysgol a'r corff llywodraethol er mwyn mesur cynnydd a nodi'r ardaloedd sydd angen sylw pellach yn drwyadl/briodol.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ei ddarpariaeth.  Mae'r rhyngweithio hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad y disgyblion.

Mae'r bartneriaeth â rhieni yn gryfder yn yr ysgol.  Mae'r holl staff yn cydweithio'n llwyddiannus gyda rhieni yn ystod sesiynau ffurfiol ac anffurfiol gan sicrhau eu bod yn chwarae rhan weithredol a chyflawn yn addysg y disgyblion.  Mae cymdeithas cyfeillion yr ysgol yn weithgar iawn ac yn cyfrannu symiau sylweddol sy'n gymorth i brynu adnoddau sy'n cyfoethogi'r dysgu'n dda.  Enghraifft o hyn yw'r offer chwarae a brynwyd ar gyfer y buarth.

Mae swyddog teulu'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gyda disgyblion a theuluoedd gan ddarparu cefnogaeth o safon uchel er mwyn sicrhau lles disgyblion.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gref gyda meithrinfeydd yr ardal leol sy'n sicrhau bod y disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol.  Mae trefniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli gyda'r ysgol uwchradd i baratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.  Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion y dalgylch wrth gyd-safoni a chymedroli gwaith.  Mae hyn wedi cryfhau gweithdrefnau asesu yn yr ysgol.

Mae’r ysgol yn elwa o’i chysylltiadau gyda phrifysgolion hyfforddiant lleol trwy ei chyfraniad at hyfforddiant cychwynnol darpar athrawon. Mae’r ysgol yn chwarae rhan weithredol o fewn y gymuned. Er enghraifft, mae’r cae amlddefnydd a’r neuadd yn adnodd gwerthfawr at ddefnydd y gymuned.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol staff â chymwysterau o safon uchel i addysgu pob agwedd ar y cwricwlwm yn effeithiol iawn. Mae defnydd llwyddiannus yn cael ei wneud o arbenigedd athrawon er mwyn datblygu agweddau o’r ddarpariaeth, fel gwyddoniaeth, addysg gorfforol a cherddoriaeth. Mae cynorthwywyr dosbarth yn cyfrannu’n werthfawr at brofiadau dysgu’r disgyblion. Gwneir defnydd llawn o’r adnoddau sydd ar gael i gyfoethogi’r cwricwlwm.

Mae’r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol iawn o’u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer yr holl staff yn canolbwyntio’n glir ar flaenoriaethau’r ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol gyfan yn gweithio tuag at yr un nod.

Mae staff yr ysgol yn rhwydweithio’n gyson gydag ysgolion lleol er mwyn datblygu strategaethau newydd i godi safonau ysgrifennu disgyblion. Mae effaith hyn i’w gweld yn glir ar ddeilliannau llythrennedd y disgyblion.

Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu’n briodol â blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Defnyddir y Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol i gyflogi swyddog teulu. Mae hyn yn sicrhau cefnogaeth effeithiol iawn addas i garfan o ddisgyblion. Caiff y gwariant ei fonitro’n dda gan arweinwyr yr ysgol.

O ystyried cyflawniadau’r disgyblion, mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6812166 - YSGOL GYMRAEG MELIN GRUFFYDD**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 468 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 3.6 |
| Grŵp PYD | 1 (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 57 | 59 | 60 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 93.0 | 94.9 | 95.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 57 | 59 | 60 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 94.7 | 96.6 | 96.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 35.1 | 28.8 | 41.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 57 | 59 | 60 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.5 | 96.6 | 95.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 31.6 | 30.5 | 26.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 57 | 59 | 60 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 94.7 | 100.0 | 98.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 43.9 | 69.5 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6812166 - YSGOL GYMRAEG MELIN GRUFFYDD**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 468 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 3.6 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 40 | 37 | 45 | 53 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 87.5 | 86.5 | 86.7 | 90.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 40 | 37 | 45 | 53 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.5 | 89.2 | 93.3 | 92.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 30.0 | 43.2 | 44.4 | 50.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 40 | 37 | 45 | 53 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.0 | 89.2 | 91.1 | 92.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 30.0 | 45.9 | 48.9 | 47.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 40 | 37 | 45 | 53 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.5 | 91.9 | 86.7 | 90.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 22.5 | 40.5 | 42.2 | 41.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 40 | 37 | 45 | 53 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.5 | 94.6 | 93.3 | 90.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 22.5 | 43.2 | 42.2 | 43.4 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 121 | 121<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 121 | 121<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 121 | 120<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 121 | 121<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 121 | 121<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 121 | 118<br>98%<br>96% | 3<br>2%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 121 | 121<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 121 | 121<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 121 | 115<br>95%<br>91% | 6<br>5%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 121 | 121<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 121 | 106<br>88%<br>77% | 15<br>12%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 121 | 117<br>97%<br>84% | 4<br>3%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 104 | 70 | 28 | 4 | 2 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 67% | 27% | 4% | 2% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 104 | 83 | 19 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 80% | 18% | 2% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 104 | 72 | 28 | 2 | 2 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 69% | 27% | 2% | 2% | | |
| | | 72% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 104 | 65 | 32 | 4 | 2 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| | | 61% | 33% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 104 | 69 | 32 | 1 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 104 | 62 | 35 | 3 | 1 | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 34% | 3% | 1% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 104 | 68 | 30 | 3 | 0 | 3 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 65% | 29% | 3% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 103 | 51 | 36 | 9 | 4 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 50% | 35% | 9% | 4% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 103 | 55 | 29 | 7 | 2 | 10 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 53% | 28% | 7% | 2% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 104 | 66 | 33 | 2 | 0 | 3 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 63% | 32% | 2% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 104 | 70 | 31 | 3 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 30% | 3% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 100 | 44 | 21 | 10 | 1 | 24 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 44% | 21% | 10% | 1% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 100 | 37 | 39 | 16 | 7 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 37% | 39% | 16% | 7% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 104 | 67 | 25 | 6 | 6 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 64% | 24% | 6% | 6% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 103 | 40<br>39% | 36<br>35% | 11<br>11% | 4<br>4% | 12 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 38% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 103 | 56<br>54% | 40<br>39% | 3<br>3% | 0<br>0% | 4 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 101 | 51<br>50% | 27<br>27% | 3<br>3% | 1<br>1% | 19 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 43% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 104 | 77<br>74% | 25<br>24% | 2<br>2% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 104 | 59<br>57% | 33<br>32% | 6<br>6% | 2<br>2% | 4 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Anwen Eluned Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Helen Nutall | Arolygydd Tîm |
| Aled Glyn Davies | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Helen Mary Jennings | Arolygydd Cymheiriaid |
| Illtud James | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.